**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**CYTUNDEB YMGYNGHORI A CHYFLEUSTERAU UNDEBAU LLAFUR**

**GMB, UNSAIN, UNITE**

## RHAN A

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yn gwerthfawrogi perthnasoedd gweithio da rhwng Aelodau Etholedig, Rheolwyr a Gweithwyr. Mae’r Cyngor yn gefnogol o’r system cydfargeinio i ddelio â materion sy’n effeithio ar ei weithlu ac er mwyn gallu cynnal y trefniant hwn byddai’n annog ei holl weithwyr i ymuno ag Undeb Llafur priodol.

1.2 Mae gan weithwyr sy’n gynrychiolwyr undeb i’r Undebau Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor yr hawl i amser rhesymol i ffwrdd yn ystod oriau gwaith, gyda thâl, i gyflawni dyletswyddau a dilyn hyfforddiant penodol ar gyfer yr Undeb Llafur.

1.3 Pwrpas y Cytundeb hwn yw sefydlu fframwaith er mwyn amddiffyn anghenion y gwasanaeth ac ar yr un pryd sicrhau y cydnabyddir ac y darperir ar gyfer anghenion rhesymol cynrychiolwyr undebau llafur.

1.4 Nid yw’r Cytundeb hwn yn ymestyn i Athrawon gan fod trefniadau ar wahân yn bodoli ar eu cyfer.

1.5 Nid yw’r Cytundeb hwn yn ymestyn i staff cymorth sy’n gweithio mewn ysgolion oherwydd bod eu trefniadau rheoli (gan gynnwys cymeradwyo amser i ffwrdd â thâl) ar ddisgresiwn pennaeth a/neu gorff llywodraethu pob ysgol unigol.

## 2. Cydnabyddiaeth

2.1 Caiff y GMB, UNSAIN ac UNITE (yr Undebau Llafur) eu cydnabod gan y Cyngor o safbwynt cydfargeinio ar gyfer yr Amodau Gwasanaeth a Chyflog canlynol:

(a) Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
(b) Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Prif Swyddogion.
(c) Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Crefftwyr a Gweithwyr Cysylltiedig Awdurdodau Lleol

(d) Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned

2.2 O safbwynt pob un o’r grwpiau gweithwyr ym mharagraff 2.1 uchod, mae’r Cygor yn cydnabod y GMB, UNSAIN ac UNITE at ddibenion:

(a) ymgynghori a thrafod ar y cyd o safbwynt materion perthnasol e.e. telerau ac amodau cyflogaeth

(b) cynrychiolaeth drwy aelodaeth unigol o undeb llafur.

## 3. Diffiniadau

### 3.1 Cynrychiolydd Undeb Llafur

Mae cynrychiolydd undeb llafur yn golygu gweithiwr i'r Cyngor a gafodd ei ethol neu'i benodi'n unol â rheolau'r undeb llafur, i fod yn gynrychiolydd i rai neu holl aelodau'r undeb llafur sy'n gyflogedig gyda'r Cyngor.

### 3.2 Dyletswyddau Undeb Llafur

Mae dyletswyddau undeb llafur yn cynnwys pob mater sy'n ymwneud â chydfargeinio a chynrychioli unigolion, megis cynrychioli gweithiwr mewn gwrandawiad disgyblu neu gwyno. Mae gan gynrychiolwyr undebau llafur hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd **â thâl** i gyflawni **dyletswyddau'r undeb llafur**.

### 3.3 Gweithgareddau Undeb Llafur

Mae gweithgareddau undeb llafur yn cynnwys pob mater sy'n ymwneud â threfnu'r undeb llafur a bod yn aelod o undeb llafur. Mae gan gynrychiolwyr undebau llafur a'u haelodau hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd **â thâl** pan fyddant yn cyfranogi yng **ngweithgareddau'r undeb llafur**.

## 4. Cyfrifoldebau ac Egwyddorion

4.1 Mae gan y Cyngor a'r 3 Undeb Llafur gydgyfrifoldeb i sicrhau bod trefniadau y cytunwyd arnynt, i gael amser i ffwrdd â thâl i wneud dyletswyddau'r undeb llafur, yn gweithio fel eu bod o fantais i'r ddwy ochr.

4.2 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddarparu amser rhesymol i ffwrdd **â thâl**, yn ystod oriau gwaith arferol, i helpu **cynrychiolwyr** i gyflawni **dyletswyddau'r undeb llafur**.

4.3 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddarparu amser rhesymol i ffwrdd **heb dâl** i alluogi **aelodau o undeb llafur** i gymryd rhan yng **ngweithgareddau'r undeb llafur**.

4.4 Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau rhesymol (gweler rhan 10) i'r undebau llafur er mwyn galluogi cynrychiolwyr i ymgymryd â'u dyletswyddau, yn ychwanegol at unrhyw amser i ffwrdd a roddir.

4.5 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynrychiolwyr yr undebau llafur ddysgu a datblygu, a bydd yn darparu amser rhesymol i ffwrdd **â thâl** ar gyfer gweithgareddau dysgu a hyfforddiant perthnasol.

4.6 Bydd rheolwyr llinell yn cael cyngor ac arweiniad am hawliau a dyletswyddau cynrychiolwyr undebau llafur ynglŷn ag amser i ffwrdd. Bydd yn ofynnol i reolwyr gymryd camau rhesymol i gynllunio a rheoli amser i ffwrdd cynrychiolwyr undebau llafur.

4.7 Bydd cynrychiolwyr Undebau Llafur sy'n gofyn am amser i ffwrdd i ddilyn eu dyletswyddau neu weithgareddau yn rhoi i'w rheolwr llinell gymaint o rybudd ag sy'n rhesymol ymarferol ac yn ceisio tarfu cyn lleied â phosib ar wasanaethau.

4.8 Dylai rheolwyr geisio sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, fod gweithiwr llanw ar gael a / neu fod y llwyth gwaith yn cael ei leihau pan fo angen amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undeb llafur.

4.9 Bydd yr Undebau Llafur yn hysbysu'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl o benodiad neu ymddiswyddiad cynrychiolwyr undeb ac o natur y rôl sy'n cael ei hysgwyddo yn yr undeb llafur. Ar gais, bydd yr Undebau Llafur yn darparu rhestr gyflawn o'r cynrychiolwyr i'r Rheolwr Adnoddau Dynol.

4.10 I ddelio ag unrhyw anghydfod sy'n codi ynglŷn ag amser i ffwrdd ar gyfer cynrychiolwyr Undeb Llafur caiff y mater, yn y lle cyntaf, ei gyfeirio at y Prif Swyddog Adnoddau Dynol ar gyfer y maes gwasanaeth penodol lle mae'r anghydfod wedi codi. Os yw'r anghydfod yn dal heb ei ddatrys, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Rheolwr Adnoddau Dynol i'w ystyried ymhellach ac, os yn briodol, i'w drafod gyda Threfnydd Rhanbarthol yr Undeb Llafur perthnasol. Os bydd yr anghydfod yn parhau heb ei ddatrys caiff ei gyfeirio at y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Corfforaethol.

## 5. Sail y Cytundeb

5.1 Mae darpariaethau'r Cytundeb hwn yn seiliedig ar lefelau aelodaeth undebau llafur a'r amgylchiadau cyfredol. Dan amgylchiadau arferol caiff y Cytundeb hwn ei adolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, os ceir unrhyw newidiadau mawr, caiff y Cytundeb hwn ei adolygu a'i ddiwygio, fel y bo'n briodol.

## 6. Trefniadau Amser i Ffwrdd

6.1 Dylai cynrychiolwyr Undebau Llafur (nad ydynt yn ddarostyngedig i drefniadau Amser Cyfleuster Undebau Llafur ar secondiad) ofyn am amser i ffwrdd i gyflawni dyletswyddau undeb llafur ac amser di-dâl o'r gwaith i gyflawni gweithgareddau undeb llafur gan ddefnyddio'r ffurflen yn **Atodiad A.** (Mae'r trefniadau ar gyfer amser i ffwrdd ar gyfer Amser Cyfleuster Undebau Llafur ar secondiad i'w gweld yn Adran 9 o'r Cytundeb hwn).

6.2 Rhaid rhoi cymaint o rybudd ag sy’n rhesymol bosibl, a chyn gynted â phosibl ar ôl sylweddoli bod angen amser i ffwrdd. Rhaid i’r cynrychiolydd ddarparu’r wybodaeth ganlynol:

- Diben y cyfryw amser i ffwrdd, gan ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol bersonol am unigolion mewn materion cwyno neu ddisgyblu;
- Y lleoliad arfaethedig;
- Yr amseriad a faint o amser i ffwrdd sy’n ofynnol.

6.3 Rhaid i gynrychiolwyr yr Undebau Llafur geisio amharu cyn lleied â phosib ar wasanaethau drwy fod mor hyblyg â phosibl wrth geisio amser i ffwrdd mewn amgylchiadau lle mae anghenion disymwth neu annisgwyl y gwasanaeth yn ei gwneud yn anodd i gydweithwyr neu reolwyr lenwi eu swydd. Dylai rheolwyr llinell ymdrechu i gymeradwyo ceisiadau am amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undeb llafur gan ystyried hawliau statudol y cynrychiolydd undeb llafur, ond bob amser roi ystyriaeth i anghenion y gwasanaeth.

6.4 Bydd Undebau Llafur yn darparu gwybodaeth am ddyletswyddau penodol y cynrychiolwyr. Mae gan wahanol fathau o gynrychiolwyr undebau llafur wahanol anghenion ac mae'n bwysig bod rheolwyr llinell yn deall pa rôl y mae pob cynrychiolydd yn ei hysgwyddo er mwyn asesu pa amser i ffwrdd y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl ac y dylid ei ganiatáu. Ynghlwm yn **Atodiad B** ceir arweiniad am y gwahanol rolau y gall cynrychiolwyr undebau llafur eu hysgwyddo, ynghyd â chyngor ynglŷn â beth y gallai eu hanghenion fod, i helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â beth ydy cais rhesymol am amser i ffwrdd.

6.5 Pan gaiff rheolwr llinell ei hysbysu bod aelod o'i staff yn gynrychiolydd undeb llafur mae'r Cyngor yn gofyn iddo drafod gyda'r gweithiwr dan sylw sut bydd y ddau ohonynt yn rheoli'r angen am amser i ffwrdd gan gytuno, er enghraifft, ar faint o rybudd y byddai angen yn rhesymol i'r rheolwr llinell ei gael er mwyn trefnu gweithiwr llanw ar gyfer pan fydd y gweithiwr i ffwrdd o'r gweithle ar ddyletswyddau undeb llafur. Bydd trafodaeth agored ar y dechrau, gan gydnabod anghenion y cynrychiolydd undeb llafur ac anghenion y gwasanaeth, yn helpu i osgoi anawsterau yn nes ymlaen.

6.6 Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod talu am yr amser a dreuliwyd ar ddyletswyddau undeb llafur os na chymerwyd camau rhesymol i gael caniatâd ymlaen llaw.

## 7. <u>Amser i ffwrdd ar gyfer Hyfforddiant</u>

7.1 Bydd amser i ffwrdd â thâl i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar gyfer dyletswyddau undeb llafur yn cael ei roi gan ystyried rhinweddau pob achos ac anghenion y gwasanaeth. Dylai rhybudd o amser i ffwrdd ar gyfer cyrsiau hyfforddi a gymeradwywyd gan yr undeb llafur gael ei roi i'r rheolwr llinell a'r Prif Swyddog Adnoddau Dynol ar gyfer y maes gwasanaeth hwnnw o leiaf 2 4 wythnos cyn y cwrs.

7.2 Bydd hyfforddiant o'r fath yn galluogi cynrychiolwyr i ymgymryd â'u rôl gyda mwy o hyder, effeithlonrwydd a chyflymder a drwy hynny eu helpu i weithio'n fwy effeithiol gyda rheolwyr, meithrin cysylltiadau effeithiol â'r gweithwyr a chynrychioli eu haelodau yn iawn. Mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn annog hyfforddiant a datblygiad cynrychiolwyr undebau llafur.

7.3 Ymysg y ffactorau i'w hystyried wrth ganiatáu amser rhesymol i ffwrdd â thâl y mae natur cyfrifoldebau'r gweithiwr yn yr undeb llafur, natur a hyd cwrs hyfforddi'r undeb llafur, anghenion y gwasanaeth a faint o amser i ffwrdd â thâl a roddwyd yn flaenorol ar gyfer cyrsiau hyfforddi.

7.4 Dylai Rheolwyr Llinell geisio cymeradwyo ceisiadau a wneir am hyfforddiant cychwynnol mewn sgiliau cynrychioli sylfaenol cyn gynted â phosibl ar ôl penodi'r cynrychiolydd, gan ystyried mai anaml y caiff cyrsiau addas eu cynnal o bosibl.

7.5 Mae gan gynrychiolwyr Undebau hawl statudol i amser i ffwrdd â thâl i fynychu cyrsiau hyfforddiant cymeradwy'r undeb mewn agweddau ar gysylltiadau cyflogaeth.

7.6 Mae gan Gynrychiolwyr Dysgu Undebau Llafur hawliau statudol penodol o ran hyfforddiant. Gweler **Atodiad B** am arweiniad pellach.

## 8. Tâl am Amser i Ffwrdd

8.1 Os rhoddir cymeradwyaeth am amser i ffwrdd, bydd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur yn cael y swm y byddai'r cynrychiolydd undeb wedi'i ennill pe byddai wedi bod yn gweithio yn ystod yr amser i ffwrdd. Dylai'r cynrychiolydd undeb gael naill ai'r swm y byddai wedi ei ennill pe byddai wedi bod yn gweithio yn ystod yr amser i ffwrdd neu, os yw'r enillion yn amrywio gyda'r gwaith a wneir, swm wedi'i gyfrifo drwy gyfeirio at yr enillion cyfartalog yr awr am y gwaith y cânt eu cyflogi i'w wneud.

8.2 Nid oes hawl i gael tâl am amser i ffwrdd os caiff y dyletswyddau eu gwneud ar adeg pan na fyddai'r cynrychiolydd undeb wedi bod yn y gwaith fel arall oni bai bod y cynrychiolydd undeb yn gweithio oriau hyblyg, megis sifft nos, ond angen cyflawni ei ddyletswyddau fel cynrychiolydd yn ystod oriau swyddfa arferol. Bydd gan weithwyr sy'n gweithio'n rhan-amser hawl i gael tâl pe byddai gan weithwyr sy'n gweithio'n amser llawn yr hawl i gael eu talu. Ym mhob achos rhaid i faint o amser i ffwrdd a gymerir fod yn rhesymol.

8.3 Nid oes gofyniad statudol i aelodau neu gynrychiolwyr undeb gael eu talu am amser a gymerir i ffwrdd ar gyfer gweithgareddau undeb llafur. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i dalu am amser i ffwrdd ar gyfer gweithgareddau undeb llafur dan amgylchiadau penodol, a nodir yn **Atodiad C.**

8.4 Os caniateir amser i ffwrdd heb dâl, bydd cynrychiolydd yr Undeb Llafur perthnasol dan sylw yn cael ei dalu gan yr Awdurdod am y cyfnod y cytunwyd arno, a bydd y Cyngor wedyn yn codi cost yr amser i ffwrdd ar gangen yr Undeb Llafur.

8.5 Disgwylir i gynrychiolwyr Undebau Llafur, wrth gyflawni eu swyddogaethau,

wneud hynny mewn ffordd gyfrifol a gyda sylw dyledus i'w rhwymedigaethau fel gweithwyr i'r Cyngor. Gall camddefnyddio'r drefn amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau undebau llafur, neu gamddefnyddio unrhyw gyfleusterau a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau undebau llafur, mewn rhai amgylchiadau, gael eu hystyried yn achosion posibl o gamymddwyn difrifol. Mewn achosion o'r fath, bydd darpariaethau Polisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Cyngor yn weithredol. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw gamau eu cymryd yn erbyn cynrychiolydd Undeb Llafur nes i Drefnydd Rhanbarthol yr Undeb Llafur perthnasol gael ei hysbysu. Pe cyfyd digwyddiad o'r fath, dylid gofyn am arweiniad gan naill ai'r Prif Swyddog Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer y maes gwasanaeth penodol neu'r Rheolwr Adnoddau Dynol.

## 9 **Swyddogion Cyfleusterau Undebau Llafur ar Secondiad**

9.1 Bydd y Cyngor yn pennu cyllideb flynyddol er mwyn caniatáu i'r Undebau Llafur cydnabyddedig, at ddibenion cydfargeinio drwy'r Cytundeb hwn, enwebu swyddogion cangen i gael eu secondio i swyddi Amser Cyfleuster. Bydd disgwyl i'r swyddogion hyn ar secondiad ymgymryd â dyletswyddau undeb llafur mwy cymhleth ac, yn benodol, y dyletswyddau hynny sy'n gysylltiedig â threfniadau cydfargeinio.

9.2 Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) yn cadarnhau pa un a ellir cymeradwyo enwebiadau'r Undebau Llafur, gan roi ystyriaeth i anghenion y gwasanaeth, sefyllfa'r gyllideb a lefel aelodaeth yr Undebau Llafur perthnasol.

9.3 Tra pery secondiadau amser llawn neu ran-amser, bydd y swyddogion a secondiwyd yn adrodd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r cyflogwr fel:

- Mynychu'r gwaith
- Delio â salwch
- Cymeradwyo absenoldeb yn unol â pholisïau absenoldeb y Cyngor
- Materion ymddygiad a disgyblu
- Lles
- Iechyd a Diogelwch

9.4 Bydd disgwyl i swyddogion ar secondiad i dreulio'r holl amser pan maent wedi'u secondio ar ddyletswyddau yn ymwneud â gweithwyr y Cyngor. Dylai manylion cyfarfodydd gael eu cofnodi yng nghyfleuster Calendr Outlook sydd ar gael gan y Rheolwr Adnoddau Dynol. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â phwrpas cyfarfodydd, gan ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol bersonol am yr unigolion mewn materion disgyblu, cwynion, neu faterion tebyg. Rhaid i geisiadau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a/neu genedlaethol yr undeb gael eu gwneud i'r Rheolwr Adnoddau Dynol ddim hwyrach na 14 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

9.5 Bydd trefniadau secondiadau yn cydymffurfio â Pholisi Secondiadau'r Cyngor, gydag un eithriad. Yn unol ag Adran 169 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, bydd amser i ffwrdd â thâl yn unol â'r radd gyflog sy'n berthnasol i swydd barhaol y swyddog (gweler Adran 7 uchod) - mae hyn yn berthnasol i ddyletswyddau undeb llafur yn unig. Pan fo'r swyddog a secondiwyd yn gysylltiedig â gweithgaredd undeb llafur, yna bydd hyn yn ddi-dâl oni chytunir fel arall.

9.6 Os yw swydd barhaol y swyddog yn gofyn am hyfforddiant penodol neu "weithgaredd gwaith" arall er mwyn cynnal, er enghraifft, gofrestriad proffesiynol,

bydd rheolwr llinell y gweithiwr yn gwneud trefniadau i sicrhau bod cynllun addas ar waith.

9.7 Am flwyddyn fydd pob secondiad, a chânt eu hadolygu yn flynyddol yn unol ag argymhellion y Gangen a chytundeb dilynol y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) gan ystyried y gyllideb sydd ar gael ac anghenion y gwasanaeth. Gall y naill barti roi mis o rybudd i derfynu'r trefniadau secondio.

9.8 Caiff amser Cyfleuster Undebau Llafur ar secondiad ei ddyrannu ar sail y lefelau aelodaeth undebau fel y nodir isod:-

1-749 o aelodau – 1 diwrnod; 750- 1499 o aelodau – 2 ddiwrnod; 1500-2249 o aelodau – 3 diwrnod; 2250-2999 o aelodau - 4 diwrnod; 3000-3499 o aelodau- 5 diwrnod

## 10 **Cyfleusterau Eraill i'w Darparu**

10.1 Yn ogystal â'r trefniadau amser i ffwrdd sydd i'w darparu i'r Undebau Llafur, bydd y Cyngor hefyd yn darparu cyfleusterau eraill i'r Undebau Llafur i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl gyda chysylltiadau gweithwyr yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Bydd hyn yn cynnwys swyddfa briodol, cyfleusterau TG, ac adnoddau eraill y cytunwyd arnynt yn unol â'r egwyddorion a nodir yn nogfen ACAS 'Trade union representation in the workplace: a guide to managing time off, training and activities'.

10.2 Mynediad i gyfleuster e-bost y Cyngor ar gyfer negeseuon unigol a dderbynnir ac a anfonir at swyddogion cangen Undebau Llafur. Rhaid i geisiadau i ddosbarthu gwybodaeth at grwpiau o staff drwy e-bost gael eu hawdurdodi gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad).

10.3 Gellir defnyddio'r cyfleusterau a'r adnoddau a ddarperir dim ond pan fyddant ar gael a rhaid eu defnyddio yn unol â pholisïau'r Cyngor. Y Cyngor sydd piau'r holl offer o hyd. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl yr hawl i ddefnyddio'r cyfleusterau yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol.

10.4 Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd i dynnu tanysgrifiadau aelodaeth Undebau Llafur yn y tarddiad o daliadau cyflog gweithwyr ac yn rhoi manylion y tanysgrifiadau a gasglwyd. Bydd y Cyngor yn tynnu 2.5% o werth y cyfraniadau fel ei dâl am wneud hyn.

## 11 **Fframwaith Cysylltiadau Gweithwyr**

11.1 Bydd y fframwaith cyffredinol y cynhelir ymgynghoriadau/trafodaethau ynddo yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei gynnwys yn Rhan 2 o’r ddogfen hon. Cytunir ar y fframwaith hwn mewn cydweithrediad â’r Undebau Llafur i adlewyrchu’r blaenoriaethau a’r trefniadau gweithredu cyfredol yn y Cyngor.

## 12 **Monitro ac Adolygu**

12.1 Pwrpas y Cytundeb hwn yw egluro'r prif faterion sy'n ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin yn darparu cyfleusterau i'r Undebau Llafur. Mae'r partïon i'r Cytundeb hwn yn cydnabod bod yr amgylchedd lle mae cysylltiadau gweithwyr yn cael eu cynnal yn hyblyg ac y bydd angen i rediad y Cytundeb gael ei fonitro a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r ddwy ochr yn cydnabod bod yn rhaid i'r Cytundeb hwn gael ei weithredu a'i ddehongli yng ngoleuni anghenion gweithredol y Cyngor a hefyd ei gefnogaeth i waith partneriaeth effeithiol gyda'r Undebau Llafur.

12.2 Gall Cyngor Sir Caerfyrddin derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny.

**Llofnod:**

**Ar ran:**

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN ..........................................................

Dyddiad .....................

GMB ..................................................................................................

Dyddiad ..................... ..

UNSAIN..........................................................................

Dyddiad ..................... ..

UNITE

Dyddiad .....................

**ATODIAD A**

**CAIS AM AMSER I FFWRDD AR GYFER**
**CYNRYCHIOLWYR UNDEBAU LLAFUR CYMERADWY**

**ENW:**
**UNDEB LLAFUR:**
**SWYDD A DDELIR YN YR UNDEB:**

**NATUR DYLETSWYDD YN YR UNDEB:**

**L L E O L I A D :**

**D Y D D I A D :**

**HYD DISGWYLIEDIG:**

**O:** **TAN:**

**AMSER I FFWRDD Â THÂL YNTEU DI-DÂL A GEISIR?**

**LLOFNOD:** **DYDDIAD:**

**AT DDEFNYDD Y GORUCHWYLIWR/RHEOLWR**

**DAETH I LAW – DYDDIAD:** **AMSER:**

**CAIS – WEDI'I GANIATÁU/GWRTHOD** **LLOFNOD:**

**OS GWRTHODWYD, RHESYMAU PAM:**

**ATODIAD B**

## ROLAU CYNRYCHIOLWYR UNDEBAU LLAFUR A'U

## HAWLIAU O SAFBWYNT AMSER I FFWRDD

### Cynrychiolwyr sy'n mynd gyda gweithwyr mewn achosion disgyblu a chwyno

Yn amodol ar fod yr Undebau Llafur wedi datgan yn ysgrifenedig bod gan y cynrychiolydd y profiad/hyfforddiant perthnasol i weithredu fel cydymaith gweithiwr, gall cynrychiolwyr undebau gynghori a mynd gyda gweithwyr cyn a/neu yn ystod gwrandawiadau cwyno, disgyblu a gallu. Bydd cynrychiolwyr angen amser i ffwrdd i fynychu gwrandawiadau o'r fath, mynychu hyfforddiant priodol ac mae'n bosibl y bydd arnynt angen amser rhesymol i ffwrdd i baratoi ar gyfer unrhyw wrandawiadau o'r fath.

### Rôl Cydfargeinio

Cynrychiolwyr yw'r rhain sy'n cael eu penodi gan yr undebau llafur i ddelio â chydfargeinio ynglŷn â newidiadau cyflog, telerau ac amodau cyflogaeth, trefniadau gwaith eraill a'r gweithdrefnau ar gyfer trafod a datrys anghydfodau. Maent yn aml yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a dyletswyddau. I wneud y gwaith hwn mae angen iddynt gael eu hyfforddi a bod yn gallu cyfathrebu gyda'u hundeb, eu haelodau, cynrychiolwyr undebau eraill a chynrychiolwyr y Cyngor. Gallai ceisiadau rhesymol am amser i ffwrdd gynnwys amser i fynychu hyfforddiant perthnasol, amser i ffwrdd ar gyfer cyfarfodydd ymgynghori a negodi gyda rheolwyr ac amser paratoi rhesymol ar gyfer mynychu cyfarfodydd o'r fath.

### Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch

Mae Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 yn mynnu bod cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn cael amser i ffwrdd â thâl, fel sy'n ofynnol, yn ystod oriau gwaith, i gyflawni eu swyddogaethau. Ymysg y swyddogaethau y mae:

- ymchwilio i beryglon a digwyddiadau peryglus posibl yn y gweithle a chwynion gan weithiwr yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith ac archwilio achosion damweiniau yn y gweithle
- cyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynglŷn ag ymchwiliadau o'r fath ac ar faterion cyffredinol sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch gweithwyr
- archwilio'r gweithle
- cynrychioli gweithwyr wrth ddelio ag arolygwyr iechyd a diogelwch
- cael gwybodaeth benodol gan arolygwyr
- mynychu cyfarfodydd y pwyllgor iechyd a diogelwch.

O’u rhan nhw, bydd cynrychiolwyr diogelwch yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r gofynion cyfreithiol perthnasol sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch pobl yn y gwaith o safbwynt y gweithwyr y maent yn eu cynrychioli’n uniongyrchol, a’r peryglon sy’n gysylltiedig â’r gweithle gan gynnwys y mesurau angenrheidiol i ddileu neu leihau’r risgiau sy’n codi o’r peryglon hynny.

Fel cyflogwr, rhaid i’r Cyngor hefyd sicrhau bod cynrychiolwyr iechyd a diogelwch etholedig yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rôl, fel sy’n rhesymol a bod y Cyngor yn talu unrhyw gostau rhesymol sy’n ymwneud â’r hyfforddiant hwnnw. Bydd y TUC neu’r undeb llafur yn cynnig hyfforddiant i gynrychiolwyr iechyd a diogelwch ac fel arfer bydd yn talu’r costau.

## Cynrychiolwyr Dysgu Undebau

Mae rôl Cynrychiolwyr Dysgu Undebau (CDU) wedi’i sefydlu drwy ddeddfwriaeth. Caiff y swyddogaethau y caniateir amser i ffwrdd ar eu cyfer eu rhestru fel:

- Dadansoddi anghenion dysgu neu hyfforddiant
- Darparu gwybodaeth a chyngor am faterion dysgu neu hyfforddiant
- Trefnu dysgu neu hyfforddiant
- Hybu gwerthu dysgu neu hyfforddiant
- Holi’r Cyngor ynglŷn â chynnal unrhyw weithgareddau o’r fath
- Paratoi i gyflawni unrhyw rai o’r gweithgareddau uchod
- Dilyn hyfforddiant perthnasol.

Rhaid i’r Undebau Llafur roi rhybudd i’r Cyngor fod y gweithiwr yn CDU sydd wedi cael, neu a fydd wedi cael ei hyfforddi’n briodol o fewn 6 mis. Mae CDU angen mynediad at hyfforddiant cymeradwy ac amser i ffwrdd i gwrdd â gweithwyr a chynrychiolwyr rheoli.

Dylai’r hyfforddiant fod mewn agweddau ar gysylltiadau cyflogaeth sy’n berthnasol i ddyletswyddau CDU.

## Cynrychiolwyr Cydraddoldeb

Mae Cynrychiolwyr Cydraddoldeb yn ymwneud ag ystod eang o faterion amrywiaeth o hybu trefniadau rheoli amrywiaeth i helpu i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a chynnal archwiliadau. Gallant helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth a chodi proffil trefniadau i drin gweithwyr yn gyfartal ar sail rhyw, oedran, crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd, ayb. Nid oes gan Gynrychiolwyr Cydraddoldeb hawl statudol i amser i ffwrdd, hyfforddiant na chyfleusterau. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn rhoi amser rhesymol o’r gwaith i’r cyfryw gynrychiolwyr i fynychu a chymryd rhan yn fforymau cydraddoldeb gweithwyr y Cyngor, ac mewn cyfarfodydd ymgynghori a thrafod gyda’r Cyngor sydd yn ymwneud â materion cydraddoldeb.

**ATODIAD C**

## ARWEINIAD I AMSER “GWEITHGAREDDAU” UNDEBAU LLAFUR

Nid oes gofynion statudol i aelodau neu gynrychiolwyr undeb gael eu talu am amser i ffwrdd a gymerir ar gyfer **gweithgareddau’r undeb llafur**. Er hynny, mae’r Cyngor wedi cytuno ar y trefniadau canlynol, gan nodi a yw gweithgareddau penodol yn rhai â thâl ynteu’n ddi-dâl:

### Cyfarfodydd Pwyllgor Cangen

Ar gyfer swyddogion **Pwyllgor Cangen** pob Undeb Llafur bydd y Cyngor yn cytuno i ganiatáu 1 awr o amser i ffwrdd **â thâl** ar gyfer pob cyfarfod misol (pan fydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal y tu allan i oriau swyddfa arferol, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser). Caniateir hefyd amser rhesymol â thâl i deithio i’r cyfarfod. Bydd yr Undebau Llafur yn rhoi gwybod enwau Swyddogion y Pwyllgor Cangen i’r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad).

Rhaid hysbysu’r Rheolwr Adnoddau Dynol o ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cangen. Dylai pawb sy’n mynychu wneud cais i’w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol, oni bai eu bod yn gweithredu fel swyddog undeb llafur ar secondiad. Rhaid i geisiadau i fynychu gael eu gwneud 7 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf.

### Cyfarfodydd Stiwardiaid Cangen

Ar gyfer cynrychiolwyr achrededig (Stiwardiaid Cangen) pob Cangen Undeb Llafur mae’r Cyngor yn cytuno i 1 awr o amser i ffwrdd **â thâl** (pan gynhelir y cyfarfodydd hyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser) am iddynt fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan y Gangen sy’n syrthio o fewn cwmpas Dyletswyddau Undebau Llafur sy’n ymwneud â chydfargeinio. Caniateir hefyd amser rhesymol â thâl i deithio i’r cyfarfod. Ni ddylid cynnal mwy na **phedwar** cyfarfod y flwyddyn a rhaid hysbysu’r Rheolwr Adnoddau Dynol o’r dyddiadau. Bydd pob Undeb Llafur yn rhoi gwybod i’r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) enwau Aelodau’r Pwyllgor Cangen.

Dylai pawb sy’n mynychu wneud cais i’w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol. Rhaid i geisiadau i fynychu gael eu gwneud 7 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf.

### Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraeth Leol Rhanbarthol

Bydd un cynrychiolydd o bob un o’r Undebau Llafur yn cael un

diwrnod i ffwrdd â thâl bedair gwaith y flwyddyn i fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol Rhanbarthol, bydd y lwfans hwn *yn cynnwys* amser teithio (os cynhelir y cyfarfodydd hyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser). Bydd yr Undebau Llafur yn rhoi enwau'r mynychwyr cyn y cyfarfod i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad). Dylai pawb sy'n mynychu wneud cais i'w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol, oni bai eu bod yn gweithredu fel swyddog undeb llafur ar secondiad.

**Cynhadledd Genedlaethol y Grŵp Gwasanaethau Llywodraeth Leol**

Bydd un cynrychiolydd o bob un o'r Undebau Llafur yn cael amser i ffwrdd i fynychu Cynhadledd Genedlaethol flynyddol eu priod Grŵp Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Bydd dau ddiwrnod absenoldeb â thâl yn cael ei roi i bob cynrychiolydd, gan gynnwys amser teithio (os yw'r gynhadledd yn syrthio ar benwythnos ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser). Bydd yr Undebau Llafur yn darparu enwau'r mynychwyr cyn y gynhadledd – caniateir un cynrychiolydd o bob un o'r Undebau Llafur – i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad). Dylai pawb sy'n mynychu wneud cais i'w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol, oni bai eu bod yn gweithredu fel swyddog undeb llafur ar secondiad.

**Cynhadledd Genedlaethol**

Bydd un cynrychiolydd o bob un o'r Undebau Llafur yn cael amser i ffwrdd i fynychu eu priod Gynhadledd Genedlaethol (os yw'r gynhadledd yn cael ei chynnal y tu allan i oriau swyddfa arferol, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser). Bydd Ysgrifennydd y Gangen yn darparu enwau'r mynychwyr cyn y gynhadledd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol. Dylai pawb sy'n mynychu wneud cais i'w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol, oni bai eu bod yn gweithredu fel swyddog undeb llafur ar secondiad.

**Cydgyngor Cenedlaethol**

Yn unol â Rhan 2 para 18 o Gytundeb Cenedlaethol Cyflog ac Amodau Gwasanaeth NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, bydd y Cyngor yn cytuno i ganiatáu amser i ffwrdd â thâl i unrhyw Swyddog Cangen y mae'n ofynnol iddo/iddi fynychu cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith yr NJC a'r Cynghorau Taleithiol.

**Cyngor Cyswllt Cymru**

Bydd un cynrychiolydd o bob un o'r Undebau Llafur yn cael amser i ffwrdd â thâl i fynychu cyfarfod o Gyngor Cyswllt Cymru, gan gynnwys unrhyw bresenoldeb sy'n ofynnol mewn rhag-gyfarfodydd ac amser teithio (os cynhelir y cyfarfodydd hyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol / goramser). Bydd

yr Undebau Llafur yn darparu enwau'r mynychwyr cyn y cyfarfod o'r Cyngor Cyswllt i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad). Dylai pawb sy'n mynychu wneud cais i'w rheolwr llinell am amser i ffwrdd yn y ffordd arferol, oni bai eu bod yn gweithredu fel swyddog undeb llafur ar secondiad.

**Os rhoddir amser i ffwrdd yn ddi-dâl, bydd cynrychiolydd/cynrychiolwyr yr Undeb Llafur dan sylw yn cael ei dalu gan y Cyngor am y cyfnod dan sylw, yna'n codi'r swm perthnasol ar yr Undeb Llafur.**

## RHAN B

### FFRAMWAITH CYSYLLTIADAU GWEITHWYR

1.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgynghori â'r staff a'u cynrychiolwyr undebau llafur fel ffordd o feithrin perthnasau gwaith da o fewn y sefydliad. Mae'r Fframwaith a welir isod yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod lefelau cyfathrebu priodol ar waith i gefnogi prosesau ymgynghori a negodi effeithiol gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur.

**1.2 Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Adrannol** – Bydd gan bob Maes Gwasanaeth/Cyfarwyddiaeth drefniadau ar waith ar gyfer ymgynghori'n rheolaidd â'r cynrychiolydd Undeb Llafur.

(a) Mae'r adrannau gweithredol mawr sydd i gyfrif am y nifer fwyaf o weithwyr Cyngor - **Adran Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Gwasanaethau Technegol, Addysg a Gwasanaethau Plant, Adfywio a Hamdden** - yn ymrwymo i alw cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr staff o leiaf 4 gwaith y flwyddyn. Y mynychwyr o'r Undebau Llafur fyddai un cynrychiolydd undeb o bob Adran a'r Swyddogion Cangen hynny y dyrannwyd iddynt amser Cyfleusterau Undebau Llafur y Cyngor.

(B) Bydd yr **Adran Adnoddau ac Adran y Prif Weithredwr** yn cynnal cyfarfod cyfun gyda chynrychiolwyr staff o leiaf **3** gwaith y flwyddyn. Yn bresennol o'r Undebau Llafur fyddai un cynrychiolydd undeb o bob Adran o'r maes gwasanaeth/adran benodol a'r Swyddogion Cangen hynny y dyrannwyd iddynt amser Cyfleusterau Undebau Llafur y Cyngor.

(c) Prif bwrpas y Fforwm Ymgynghorol Gweithwyr Adrannol fydd ymgynghori ar newidiadau sefydliadol a materion gweithredol sy'n debygol o effeithio ar arferion gwaith ac iechyd a diogelwch gweithwyr yr adran/isadran ac ymateb i faterion sy'n peri pryder fel y codwyd gan y cynrychiolwyr undebau llafur.

**1.3 Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Corfforaethol –** cynhelir cyfarfodydd **bob mis** gydag uwch swyddogion o'r adran Rheoli Pobl a Pherfformiad a'r Swyddogion Cangen hynny sy'n Swyddogion Cyfleusterau Undebau Llafur ar secondiad yn bresennol (neu eu cynrychiolwyr enwebedig). Mae'r Fforwm hwn yn ymdrin â materion corfforaethol a fydd yn cynnwys datblygu polisïau ac iechyd a diogelwch ac unrhyw faterion y mae ymgynghoriad y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Adrannol wedi methu â'i ddatrys.
Gall Trefnwyr Rhanbarthol gael cais i fynychu'r cyfarfodydd hyn gan swyddogion neu Swyddogion Cangen. Ar gyfer ymgynghori a negodi y mae'r Fforwm hwn.

1.4 **Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Gweithredol** – cynhelir cyfarfodydd o leiaf **3** gwaith y flwyddyn. Yn bresennol bydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Adnoddau, Prif Weithredwr Cynorthwyol (PMP) ac, os yn briodol, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Reoli Pobl a Pherfformiad. Bydd Trefnwyr Rhanbarthol ar gyfer UNSAIN, GMB ac UNITE yn bresennol gyda'r priod Swyddogion Cyfleusterau Undebau Llafur (neu'u cynrychiolwyr enwebedig). Bydd y Fforwm hwn yn trafod materion yn ymwneud â strategaeth a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor a'i ragolygon ariannol. Gall y Fforwm hwn hefyd roi ystyriaeth i unrhyw faterion ynglŷn â chysylltiadau gweithwyr nad yw'r Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Corfforaethol wedi llwyddo i'w datrys.

## ATODIAD A – CYLCH GORCHWYL – FFORWM CYSYLLTIADAU GWEITHWYR ADRANNOL

### 1. Amcan

Amcan y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Adrannol yw hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac ymgynghori'n rheolaidd rhwng y rheolwyr adrannol a'r staff er mwyn cynnal cysylltiadau da â'r gweithwyr fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori a Chytundeb Cyfleusterau Undebau Llafur y Cyngor.

### 2. Cylch Gorchwyl

- Ystyried cynigion sy'n cefnogi gweithredu proses ailstrwythuro/ad-drefnu yn isadrannau'r gwasanaethau adrannol yn unol â'r polisïau corfforaethol
- Ystyried cynigion am gynlluniau i wella gwasanaethau, cynigion y gallant arwain at newid y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflenwi gwasanaethau yn yr adran
- Galluogi rheolwyr adrannol ac undebau llafur i drafod materion sy'n codi o'r broses barhaus o gydweithredu ag awdurdodau lleol a/neu gyrff cyhoeddus eraill
- Darparu'r cyfle i drafod unrhyw faterion rheoli pobl sy'n lleol i'r Adran
- Trafod unrhyw faterion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch yn isadrannau'r gwasanaethau adrannol
- Sicrhau bod yr agenda a'r dogfennau cysylltiedig yn cael eu darparu 7 diwrnod cyn bob cyfarfod
- Sicrhau y bydd cofnodion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu darparu i bob Rheolwr ac Undeb Llafur perthnasol cyn pen 7 diwrnod gwaith o'r cyfarfodydd.

## 3. Aelodaeth

Cyfarwyddwr
Penaethiaid Gwasanaethau
Rheolwyr Adrannol (fel y bo'n ofynnol)
Prif Swyddog Adnoddau Dynol
Undeb Llafur – 3 Swyddog Cyfleusterau GMB, UNSAIN, UNITE (neu gynrychiolydd enwebedig)
1 Stiward Adrannol o bob Undeb Llafur

Dylai cadeirydd gael ei ethol oddi ar y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Adrannol am gyfnod o flwyddyn a dylai'r penodiad hwn gylchdroi rhwng ochr y Rheolwyr ac ochr y staff.

Rhaid i'r agenda a'r dogfennau cysylltiedig gael eu darparu 7 diwrnod cyn bob cyfarfod
Bydd cofnodion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu darparu i'r holl bartïon perthnasol cyn pen 7 diwrnod gwaith o'r cyfarfodydd

Yr Adran/nau fydd yn gweinyddu'r Fforwm.

## ATODIAD B – CYLCH GORCHWYL – FFORWM CYSYLLTIADAU GWEITHWYR CORFFORAETHOL

### 1. Amcan

Amcan y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Corfforaethol yw ymgynghori, adolygu a/neu negodi ar faterion a allai effeithio'n uniongyrchol ar delerau ac amodau gweithwyr y Cyngor.

### 2. Cylch Gorchwyl

- Ystyried y materion hynny sy'n ymwneud â phenderfyniadau a strategaethau'r Cyngor ac sy'n effeithio ar delerau ac amodau gweithwyr

- Adolygu materion na chafwyd atebion cytûn ar eu cyfer ar lefel y Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Adrannol

- Ymgynghori ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau newydd a diwygiedig sy’n gallu effeithio ar weithwyr

- Trafod a gwerthuso materion allanol y gallent gael effaith uniongyrchol ar y ffordd y cyflenwir gwasanaethau’r Cyngor.

- Negodi ac ymgynghori ar unrhyw newidiadau yn nhelerau ac amodau presennol y gweithwyr.

- Ystyried materion iechyd a diogelwch corfforaethol.

## 3. Aelodaeth

Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
Rheolwr Adnoddau Dynol
Rheolwr – Iechyd a Gwaith (materion Iechyd a Diogelwch)
Penaethiaid Gwasanaethau Adrannol, Uwch Reolwyr (fel sy’n ofynnol)
Prif Swyddogion Adnoddau Dynol (fel sy’n ofynnol)
Undeb Llafur – 3 Swyddog Cyfleusterau GMB, UNSAIN, UNITE (neu gynrychiolydd enwebedig).

Rhaid darparu’r agenda a’r dogfennau cysylltiedig 7 diwrnod cyn bob cyfarfod.

Darperir y cofnodion a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i’r holl bartïon perthnasol cyn pen 7 diwrnod gwaith o’r cyfarfod.

Yr Adran Rheoli Pobl a Pherfformiad fydd yn gweinyddu’r Fforwm.